

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 9fed o IONAWR 2023 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair), Delyth Thomas, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Linda Williams, Caroline Williams, Alan Lewis, Margaret Rees, Meic Bowen, Geraint Rosser a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams, Tracey James a'r Cyngorwr Sir Meinir James.

2938 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd a dymunodd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cydymdeimlwyd a Theulu'r diweddar Gyngorwr Arwyn Richards o Langyndeyrn, un a weithiodd yn galed dros ei Gymuned. Penderfynwyd gwneud cyfraniad ariannol i 'ANGOR' er cof amdano. Diolchwyd hefyd i Margaret am ysgrifennu Englyn i osod at y Daflen Angladdol.

2939 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 05/12/2022 fel rhai cywir.

2940 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926- Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926 - Llwybr Treftadaeth – Wedi trafodaeth penderfynwyd gwahodd Stuart Thomas i'r Cyfarfod nesaf.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926 - Meddygfa'r Sarn, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2926 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2941 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2942 Ffederasiwn Ysgolion Carwe/Gwynfryn/Ponthenri - Apêl am nawdd ariannol tuag at gostau Sioe Nadolig - Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.

Gohebiaeth Gyffredinol

2943 Cyngor Sir Gaerfyrddin - Rhestr Cysodfannau Bysiau - Penderfynwyd darparu rhestr.

2944 Diffibrilwr Neuadd Pontiets– Penderfynwyd newid y Pads.

Ceisiadau Cynllunio

2945

- a) Rhif y Cais - PL/05131 – Rhydhywel Fawr, Crwbin – Stordy 'Slurry' - Dim Gwrthwynebiad a'l Chefnogi.
- b) Rhif y Cais – PL/05142 – Blaen y Wern, Llangyndeyrn – Storio 'Slurry' ychwanegol – Dim Gwrthwynebiad.

.Gwaharddiad y Cyhoedd

2946 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2947 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Rhagfyr. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2948 Baw Cwn – Maesywern, Carwe –

Derbyniwyd cwyn ynglŷn â Baw Cwn yn cael ei gadael wrth y Goeden Nadolig ym Maesywern, Carwe. Wedi trafodaeth penderfynwyd gosod arwyddion priodol ar y safle a monitro'r sefyllfa.

2949 Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2021 - 2022 - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Darllenwyd y llythyr oddiwrth Swyddfa Archwilio Cymru yn amgáu'r Dystysgrif Archwilio ac Adroddiad Amodol i'r Cyngor. Nodwyd cynnwys y Llythyr a diolchwyd i'r Clerc am ei waith ynglŷn â'r mater hwn.

2950 Meysydd Chwarae Clwb Rygbi Pontiets - Derbyniwyd cais am wybodaeth ynglŷn â defnydd y Cyhoedd o Feysydd Chwarae'r Clwb. Penderfynwyd danfon y Cais i'r Clwb Rygbi.

Cyfarfod nesaf:- 6ed Chwefror 2023 - Neuadd Pontiets

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....